# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cynllun Ymateb i Droseddu |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog perthnasol:** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 21 Ionawr 2025 |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

1.1 Cymeradwyo a mabwysiadu y Cynllun Ymateb yn Atodiad 1.

1.2 Galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Ymchwiliad Cyhoeddus i'r holl amgylchiadau ynghlwm â'r troseddu difrifol hwn.

1.3 Comisiynu'r Prif Weithredwr i roi trefniadau mewn lle i weithredu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Cabinet.

1.4 Awdurdodi'r Prif Weithredwr i sefydlu'r threfnu'r adnoddau a chapasiti staffio dros dro sydd eu hangen i wireddu cynnwys y Cynllun hwn gan ariannu o gronfeydd wrth gefn.

1.5 Nodi fod y Cynllun Ymateb yn gynllun byw fydd angen ei adolygu'n rheolaidd ac yn y cyd-destun hwnnw gofyn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi graffu y Cynllun fel rhan o'u Rhaglen waith.

1.6 Dirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd, yr Aelod Cabinet Addysg a'r Aelod Cabinet Plant, i wneud mân addasiadau golygyddol fel bo'r gofyn.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Er fod nifer o'r ffrydiau gwaith a nodir yn y Cynllun Ymateb ynghlwm eisoes yn mynd rhagddynt, gofynnir i'r Cabinet fabwysiadu y Cynllun Ymateb yn ffurfiol er mwyn rhoi sicrwydd ac eglurder fod ein ymateb i droseddu cyn bennaeth Ysgol Friars yn cael sylw priodol ac yn flaenoriaeth o'r radd uchaf i'r Cyngor.

2.2 Hanfod Cynllun Ymateb fel hwn yw ei fod yn ffurfiol ei natur, gan ei fod yn cyfeirio at nifer o faterion trefniadaethol. Ond, ni allwn am eiliad anghofio am y rhai

pwysicaf yng nghanol hyn, sef y genethod a'r merched ifanc a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol. Holl bwrpas y Cynllun Ymateb hwn a phob cam sy'n cael eu cymryd gennym yw gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto, a dyna ddylai fod ar frig ein hystyriaethau pob amser.

## 3. Y Cynllun Ymateb

3.1 Dogfen sydd yn coladu'r holl gefnogaeth, adolygiadau, archwiliadau a ffrydiau gwaith eraill yn ymwneud â'r ymateb i droseddu yw'r Cynllun Ymateb a gyflwynir yn Atodiad 1.

3.2 Cyflwynir yr holl ffrydiau gwaith yn ymwneud â'r achos mewn un ddogfen gyhoeddus er mwyn rhoi eglurder a hyder i'r holl rhanddeiliaid fod Cyngor Gwynedd yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau na fydd sefyllfa o'r fath yn digwydd eto.

3.3 Ynddo, amlinellir:

- cefndir y sefyllfa
- ddatganiad o safbwynt y Cyngor,
- amcanion y Cynllun gan nodi sut bydd y Cyngor yn mynd ati i gyflawni ei amcanion,
- manylion yr holl ffrydiau gwaith sydd eisoes ar y gweill, ac adnabod ffrydiau gwaith pellach sydd angen i ni eu gweithredu

3.4 Mae'r Cynllun Ymateb hefyd yn sefydlu trefniadau llywodraethu ar gyfer monitro a herio cynnydd y ffrydiau gwaith yn ffurfiol.

3.5 Mae'n hanfodol nad yw y Cynllun Ymateb hwn nac unrhyw fater sy'n bwydo i mewn i unrhyw ran o'r Cynllun hwn yn tanseilio unrhyw waith arall, megis yr Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) sydd wedi ei sefydlu gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru dan gadeiryddiaeth Jan Pickles.

3.6 Wrth sefydlu y Cynllun, gwahoddwyd sylwadau gan nifer o asiantaethau allanol perthnasol - y Comisiynydd Plant, Llywodraeth Cymru, Cadeirydd yr Adolygiad Ymarfer Plant, ac Estyn. Rydym yn ddiolchgar iddynt i gyd am gymryd yr amser i ystyried y cynnwys a'r cyfeiriad ac yn hynod o falch eu bod wedi croesawu'r Cynllun ac wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn.

**Gweithredu a threfniadau llywodraethu**

3.7 Er fod nifer o'r ffrydiau gwaith sy'n ffurfio'r Cynllun hwn eisoes ar waith, neu ar fin cychwyn, mae gwaith sylweddol o'n blaen i wireddu cynnwys y Cynllun Ymateb yn ei gyfanrwydd.

3.8 Argymhellir sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol gyda Chylch Gorchwyl cytunedig i gydlynu a sicrhau cynnydd priodol ac amserol, ac y dylai'r Bwrdd Rhaglen wahodd mewnbwn gan gyrff allanol perthnasol megis Estyn, Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Plant. Argymhellir penodi Cadeirydd neu Gyfaill Beirniadol Annibynnol o du allan i'r Cyngor ar y Bwrdd Rhaglen, sydd â'r cefndir a phrofiad perthnasol i alluogi herio'r cyflawni a'r gweithredu. Bydd y Prif Weithredwr, gyda chymorth y Bwrdd Rhaglen, yn adrodd i Gabinet yn rheolaidd ac i'w gadarnhau yn y Cylch Gorchwyl y cyfeirir ato uchod.

**Adnoddau i weithredu'r Cynllun**

3.9 Hyd yn hyn, mae'r dasg o ymateb i'r holl sefyllfa hon wedi ei ysgwyddo ar nifer fechan o swyddogion ac mae'n deg dweud fod hynny wedi arwain at faich sylweddol tra'n ceisio parhau i gyflawni eu gwaith dydd i ddydd yn ogystal.

3.10 Ar adegau, mae wedi golygu fod ymateb yn amserol wedi bod yn anodd ac mae wedi creu risgiau mewn llefydd eraill wrth i rai o brif faterion y Cyngor orfod derbyn blaenoriaeth is. Mae hefyd wedi arwain at roi baich anghymesur ar ysgwyddau sawl swyddog.

3.11 Os am roi'r sylw priodol ac amserol mae'r mater yma'n ei deilyngu, a gallu gwireddu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn yn llawn, yn ogystal â gallu rhoi sylw priodol i reoli risgiau ynghlwm â blaenoriaethau eraill y Cyngor, bydd angen penodi adnodd ychwanegol dros dro gan nad yw'n gynaliadwy parhau gyda'r sefyllfa bresennol dros y cyfnod sydd i ddod.

3.12 Argymhellir felly fod y Prif Weithredwr yn rhoi trefniadau dros dro mewn lle i sicrhau hynny cyn gynted â phosib, gan ariannu allan o gronfeydd priodol.

## 4. Ymchwiliad Cyhoeddus

4.1 Mae Arweinydd y Cyngor eisoes wedi datgan yn gyhoeddus yr alwad am Ymchwiliad Cyhoeddus i'r holl amgylchiadau hyn. Mae'r Cynllun Ymateb hwn yn ail ddatgan yr alwad honno ac mae mabwysiadu argymhellion yr adroddiad hwn yn ffurfioli'r alwad honno.

4.2 Mae'r Cyngor hefyd wedi datgan ein cefnogaeth ac ymrwymiad i'r Adolygiad Ymarfer Plant (CPR)sydd ar y gweill ar hyn o byd ac mae'r Cynllun Ymateb hwn yn ail ddatgan y gefnogaeth honno hefyd.

4.3 Llywodraeth Cymru sydd â'r grym statudol i sefydlu Ymchwiliadau Cyhoeddus ac felly mater i'r Llywodraeth yw pwyso a mesur y rhesymeg dros gynnal ymchwiliad o'r fath neu beidio. Rydym felly yn gofyn iddynt ddod i benderfyniad amserol ar hyn.

4.4 Yn nghyd destun yr adroddiad yma yr hyn sydd dan sylw yw Ymchwiliad Cyhoeddus statudol wedi ei sefydlu dan Deddf Ymchwiliadau 2005 (Inquiries Act 2005). Wrth ystyried galw am Ymchwiliad Cyhoeddus fel hyn mae'r Cyngor wedi pwyso a mesur yr holl ffactorau y dylai corff cyfrifol eu hystyried.

4.5 Mae cylch gorchwyl Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael ei sefydlu er cyfarch ei ddibenion o gymharu ag Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) sydd yn gyfyngedig o ran sgôp a cyfnod dan sylw, a byddai Ymchwiliad Cyhoeddus yn caniatáu edrych ar gyfnod llawer hwy na CPR. Fodd bynnag, er na ellir damcaniaethu, yn gadarn mae angen bod yn ymwybodol y gall Ymchwiliad Cyhoeddus ar gyfartaledd gymryd 3-4 blynedd rhwng ei sefydlu a chwblhau ei adroddiad terfynol. O ganlyniad byddai canfyddiadau a gwersi i'w dysgu yn destun oediad sylweddol o gymharu â threfn CPR.

4.6 Mae modd i Ymchwiliad Cyhoeddus gymell tystiolaeth a thystion dan lw. Gall hyn gryfhau y broses o gasglu a chloriannu tystiolaeth unigolion. Ni all CPR wneud hyn yn yr un modd. Mae ymchwiliadau cyhoeddus yn brosesau sylweddol a chymhleth ac yn cymryd adnoddau arwyddocaol i'w sefydlu, paratoi a chynnal. Byddai rhaid i bob asiantaeth sydd yn cymryd rhan fod yn priodoli adnoddau a staff i'r broses ynghyd â chynrychiolaeth broffesiynol dros gyfnod y broses.

4.7 Byddai Ymchwiliad Cyhoeddus yn broses ffurfiol gyfreithiol fyddai yn cael cynnal drwy gyfreithwyr a gwrandawiadau. Mae'n cynnig proses led gyfreithiol manwl a all roi ystyriaeth ddofn i fanylion a chefndir digwyddiadau penodol. Ar y llaw arall mae proses CPR yn cael ei arwain gan unigolion annibynnol sydd yn hyddysg a phrofiadol yn y maes ac yn cynnig trefn drylwyr a chynhwysol i ddod i ganfyddiadau. Mae Ymchwiliad Cyhoeddus yn broses ffurfiol gyfreithiol fyddai yn cael ei gynnal drwy gyfreithwyr a gwrandawiadau yn hytrach na thrafodaeth ac adlewyrchu.

4.8 Mae posibilrwydd y byddai cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus am gyfnod o rhai blynyddoedd yn gallu arwain at sefyllfa heriol i'r rhai fyddai'n cymryd rhan ynddo, gan gynnwys dioddefwyr, yr ysgol, staff a'r gymuned ehangach. Bydd gan wahanol unigolion a rhanddeiliaid safbwyntiau amrywiol ar hyn a gall rhai ei groesawu fel cyfle i sicrhau ymchwiliadau manwl i faterion penodol hanesyddol.

4.9 O gloriannu’r ystyriaethau uchod, credir fod cyfiawnhad i’r ddeubeth ac felly mae’r Cyngor yn parhau yn llwyr gefnogol ac ymrwymedig i’r CPR sydd eisoes ar y gweill, ac hefyd yn galw am Ymchwiliad Cyhoeddus ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddod i benderfyniad amserol ar hynny.

## 5. Ystyriaethau eraill

5.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu a sy’n gyfrifol ar lefel byd eang. Paratowyd y cynllun o fewn egwyddorion y Ddeddf a’r 5 ffordd o weithio.

5.2 Yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (“Y Ddeddf”) (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i’r Cyngor dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol Bydd yn Cynllun yn cael ei gyflawni gan gyfarch ein dyletswyddau dan y Ddeddf a’n cyfrifoldebau dan Fesur Iaith ( Cymru) 2011. Rydym fodlon ei fod yn gydnaws a’n dyletswyddau.

## 6. Camau nesaf

6.1 O dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet i’r Cynllun Ymateb hwn, byddwn cychwyn y broses o sefydlu Bwrdd Rhaglen yn syth er mwyn sicrhau llywodraethiant ffurfiol o’r Cynllun Ymateb.

## 7. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 7.1 Prif Swyddog Cyllid

Gallaf gadarnhau fod cronfeydd priodol yn eu lle er mwyn ymdopi â’r gofynion ariannol y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.12 uchod a byddaf yn cynghori’r Prif Weithredwr ar y mater hwn fel bo’r angen.

Petai Llywodraeth Cymru yn cytuno i gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus byddwn yn cymryd camau priodol i amcangyfrif cost ariannol hynny i'r Cyngor ac yn rhoi trefniadau yn eu lle i adnabod ffynonellau ariannu.

### 7.2 Swyddog Monitro

Gallaf gadarnhau fy mod i a'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cael cyfle i roi mewnbwn i'r Cynllun yma. Mae ystod y camau a'r ymatebion sydd yn cael eu hamlygu yn adlewyrchu maint yr ardrawiad a'r her i'r Awdurdod sydd wedi deillio o'r troseddau yma a sut i ymdrin ac ymateb i'r dioddefwyr, y cwestiynau anorfod sydd wedi codi i ac adnabod y gwersi sydd i'w dysgu. Yn ogystal â'r cynllun mae penderfyniadau ehangach i'r Cabinet hefyd ynglŷn â'r alwad am ymchwiliad cyhoeddus statudol dan ddarpariaethau yr Inquiries Act 2005. Mae'n bwysig i'r Cabinet, fydd yn gwneud penderfyniad corfforaethol ddal sylw at yr elfen yma o'r adroddiad wrth ddod i benderfyniad. Mae yma hefyd benderfyniadau sydd yn gosod fframwaith briodol yn fy marn i ar gyfer symud y cynllun ei flaen, adrodd a chraffu ar y cynnydd a'i gadw dan adolygiad. Gallaf gadarnhau fy mod yn fodlon felly fod y penderfyniadau a geisir yn briodol i'w rhoi gerbron y Cabinet.

**Rhestr Atodiadau:**

**Atodiad 1:** Cynllun Ymateb i droseddu